| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Ionawr 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Angela Loftus (Rheolwr Polisi Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd)** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Bryn Bowker (Swyddog Polisi Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd)** |

**Teitl: Drafft o'r Bil Cynllunio (Cymru) ac ymgynghoriad Cynllunio Cadarnhaol.**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. I wneud Aelodau yn ymwybodol o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Drafft o'r Bil Cynllunio a'r ddogfen atodol 'Cynllunio Cadarnhaol'. Mae'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 26 Chwefror 2014. Gwelir y dogfennau trwy wefan Llywodraeth Cymru neu gellir gwneud cais am gopïau

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I amlinellu'r hyn y bydd y swyddogion yn ei ystyried fel prif oblygiadau'r newidiadau sy'n cael eu cynnig i'r system cynllunio gan Lywodraeth Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.2. Bod Aelodau yn cydnabod cynnwys yr adroddiad ac yn amlinellu unrhyw sylwadau yr hoffent ei gynnwys yn ymateb y Cyngor i'r Drafft o'r Bil Cynllunio a'r ymgynghoriad ar 'Gynllunio Cadarnhaol'.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1. Y Drafft o'r Bil Cynllunio a'r ddogfen ymgynghori ar 'Gynllunio Cadarnhaol' oedd y cyntaf i Lywodraeth Cymru eu cyhoeddi ar 4 Rhagfyr yn dilyn nifer o adolygiadau annibynnol ar y system gynllunio. Yn fras, mae'r papur ymgynghori yn ceisio moderneiddio'r system gynllunio ac adnabod yr angen am newid diwylliannol, sy'n cynnwys newid yn yr agwedd at ddatblygu rheoleiddio er mwyn annog a chefnogi datblygiadau priodol sy'n cefnogi amcanion cenedlaethol, lleol a chymunedol.

4.2. Mae'r cynigion wedi eu rhannu i grwpiau sy'n ymdrin â phedwar thema: cefnogi newid diwylliannol, stiwardiaeth weithredol, gwella cydweithrediad, a gwella trosglwyddiad lleol. Er mwyn ei gwneud hi'n haws cyfeirio, mae'r newidiadau allweddol a gynigir ar gyfer y system cynllunio wedi eu hamlinellu o dan bob thema berthnasol:

4.3. ***Cefnogi newid diwylliannol*** trwy:

- Sefydlu Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio yn genedlaethol a fyddai'n adnabod ac yn lledaenu arfer da; yn helpu i rannu arbenigedd ac adnoddau ar draws yr awdurdodau cynllunio; adnabod, hyrwyddo a thargedu'r gofynion hyfforddi ar gyfer swyddogion ac aelodau; darparu cyngor a mentora arbenigol, a hyrwyddo, lledaenu ac addysgu ynglŷn â mentrau cynllunio Llywodraeth Cymru.
- sicrhau fod y sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad a ystyrir yn hanfodol yn eu lle fel bod y broses gynllunio yn weithgaredd positif sy'n cynnig cyfleoedd.

4.4. O dan y thema ***stiwardiaeth weithredol*** disgwylir:

- Cyhoeddi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a fydd yn cymryd lle Cynllun Gofodol Cymru. Byddai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn adnabod ardaloedd allweddol ar draws Cymru a fyddai'n croesawu'r newid a buddsoddiad mewn isadeiledd, ac yn gosod y fframwaith ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol (wedi'i egluro ymhellach isod) a Chynlluniau Datblygu Lleol er mwyn manteisio ar y ffrydiau ariannu, a gosod y cyd-destun i Weinidogion Cymru i wneud penderfyniadau ar Ddatblygiadau sy'n Arwyddocaol yn Genedlaethol (wedi eu hegluro ymhellach isod).
- Sefydlu categori newydd o ddatblygiadau ar gyfer yr isadeiledd mwyaf ar gyfer ceisiadau cynllunio (datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol) gyda'r mathau hynny o geisiadau a bennir gan Weinidogion Cymru neu unrhyw berson (au) a benodir ganddynt. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn arwain ar y broses o gyngor gorfodol cyn gwneud cais ar gyfer datblygiadau o bwys cenedlaethol, a byddai'n ddyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol yn ôl y gofyn i roi ymateb cyn y bydd datblygwyr yn gwneud cais. Pan gyflwynir cais cynllunio ffurfiol, bydd yn rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol lunio Adroddiad Effaith Lleol i Weinidogion Cymru.
- Newidiadau i'r broses apelio cais cynllunio lle disgwylir i'r rheini sy'n apelio i gyflwyno eu datganiad achos yn llawn pan wneir apêl; cyflwyno drafft o Ddatganiad ar Dir Cyffredin ar gyfer apeliadau trwy wrandawiad neu ymholiad; tynnu'r hawl i apelio o flaen Arolygwr; rhoi'r pŵer i Arolygwyr benderfynu ynglŷn â sut i ymdrin â'r apêl, a'r gallu i ddyfarnu costau ar gyfer apeliadau a wnaed trwy gynrychiolaeth ysgrifenedig.

4.5. O dan y thema ***gwella cydweithrediad*** disgwylir:

- I'r fframwaith cyfreithiol gael ei ddiweddaru fel bod Gweinidogion Cymru yn gallu sefydlu byrddau cynllunio ar y cyd a fyddai'n ymgorffori awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer un ardal neu fwy. Mae'r dogfennau ymgynghori yn nodi fod y bwrdd cynllunio ar y cyd yn perfformio dyletswyddau ACLl fel paratoi CDLl a chasglu Ardreth Seilwaith Cymunedol.
- Sefydlu system o Gynlluniau Datblygu Strategol ar gyfer tair ardal yng Nghymru sef: Caerdydd, Abertawe a Choridor yr A55. Mae'r tair ardal wedi eu hadnabod fel ardaloedd sy'n golygu mwy nac arwyddocâd lleol. Ar gyfer yr ardaloedd hyn bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn ymdrin â materion strategol fel tai, cyflogaeth, cludiant, darpariaeth sipsiwn a theithwyr, a mwynau a gwastraff. Mae'r ddogfen ymgynghori yn egluro pan na fydd ardal

yn cael ei gynrychioli gan y Cynllun Datblygu Strategol, y bydd angen CDLl llawer llai o ran cynnwys (wedi'i gynhyrchu mewn cydweithrediad â'r Cynllun Datblygu Strategol, Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Polisi Cynllunio Cymru perthnasol).

4.6. I ***wella trosglwyddiad lleol*** disgwylir:

- Diffinio'r hyn sy'n creu gwasanaeth cynllunio lleol da, a sefydlu'r angen i awdurdodau cynllunio lleol i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol o Berfformiad a fyddai'n asesu trosglwyddiad gwasanaeth yn ôl nifer ac o ran ansawdd yn erbyn fframwaith berfformio cyffredinol.
- <u>Crynhoi'r system Cynllun Datblygu Lleol</u> a hyrwyddo cydweithrediad rhwng awdurdodau cynllunio lleol a chynghorau tref a chymuned i lunio <u>Cynlluniau Lleoliadau</u> a fyddai'n sicrhau fod y datblygiadau yn adlewyrchu arbenigrwydd yr ardal a hefyd yn adnabod blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad cymunedol ar gyfer yr Ardoll Buddsoddiad Cymunedol. Byddai'r Cynlluniau Lleoliadau hyn yn cael eu mabwysiadu fel y Canllawiau Cynllunio Atodol.
- <u>Dechrau dwys ar gyfer y broses cais cynllunio</u> trwy gyflwyno dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau cynllunio lleol i ddarparu gwasanaeth cyn gwneud cais yn ôl y galw. Cynigir dau opsiwn ar gyfer codi ffi yn y papur sy'n cynnwys codi un ai ffi yn y fan ar lle ar y datblygwr ar gyfer cyngor cyn gwneud cais, neu dim ond codi ffi ar gyfer gwasanaeth cyn i'r datblygwr wneud cais os fydd y cais cychwynnol yn arwain at gais cynllunio.
- Mae'r Bil Diwygio hefyd eisiau gwneud <u>newidiadau i bwyllgorau cynllunio</u> ar draws Cymru trwy lunio cynllun dirprwyo cenedlaethol ac amlinellir gweithdrefn briodol ar gyfer pwyllgor sy'n cynnwys lleiafswm ac uchafswm o aelodau pwyllgor (rhaid cael o leiaf 11 aelod a dim mwy na 21).
- Newidiadau eraill a gynigir o dan y thema *trosglwyddiad lleol* yn cynnwys; adolygiad o'r ffioedd cais, cael gwared ar y gofyniad i gyflwyno dyluniad a chael mynediad i ddatganiad â chais cynllunio; cyflwyno rhybuddion gorfodi stop dros dro ar gyfer y broses gorfodi cynllunio; gwneud rhybuddion penderfyniadau 'dogfennau byw' gyda'r cyfrifoldeb ar y datblygwr i hysbysu'r awdurdod pan gychwynnir ar y gwaith datblygu; gwahardd ceisiadau i gofrestru tir fel tir gwyrdd mewn tref a phentref pan fydd y tir hynny wedi dod i mewn i'r system gynllunio; cael gwared ar y ddadl p'un ai fod y defnydd yn dderbyniol mewn egwyddor ar gyfer safleoedd wedi eu dyrannu o fewn y CDLl yn ystod y cyfnod cais cynllunio (un ai trwy gyflwyno math newydd o ganiatâd cynllunio, neu trwy sicrhau fod cynigion o'r fath yn cael eu penderfynu o dan bwerau dirprwyedig); cyflwyno dyletswydd statudol ar ymgynghorai i roi ymateb sylweddol ac amserol i geisiadau ymgynghori, a rhoi'r dewis i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau cynllunio'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru pan fydd perfformiad yr awdurdod cynllunio lleol yn parhau i fod yn wael o'i gymharu â nifer o ddangosyddion gwahanol.

.

**5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Ar gyfer y cyfnod hwn dim ond ar gyfer diben ymgynghoriad y lluniwyd y dogfennau gan Lywodraeth Cymru, er hynny gall y newidiadau y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig ar gyfer y system cynllunio yng Nghymru, os caent eu gweithredu, gyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol:

- *Datblygu’r Economi Leol* trwy wneud yn siŵr fod y cais cynllunio yn cael ei drin mewn modd amserol ac effeithiol, ac annog twf economaidd trwy ddyrannu Ardaloedd Datblygu Strategol ar draws y wlad.
- *Strydoedd glân a thaclus* trwy wella’r broses gorfodi cynllunio.
- *Moderneiddio’r cyngor i fod yn effeithiol ac i wella gwasanaethau i'n cwsmeriaid* trwy benderfynu ar gais cynllunio mwy effeithiol ac amserol, a thrwy symleiddio’r broses o apelio cais cynllunio a’r broses CDLl.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Mae’r ddogfen ymgynghori ‘Cynllunio Cadarnhaol’ (Pennod 7, tudalen 91) yn amlinellu’r buddion ariannol posib i Lywodraeth Cymru, i awdurdodau cynllunio lleol ac i ddatblygwyr. Trefnir gweithdy yn fewnol ar gyfer swyddogion i sicrhau fod yr holl wasanaethau a effeithiwyd yn gallu dylanwadu ar ymateb y Cyngor i’r ymgynghoriad.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i’r adroddiad hwn.**

7.1. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at ddogfennau ymgynghori a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, ac felly nid oes angen AEG.

**8. Pa ymgynghori a gwblhawyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1. Trefnir gweithdy mewnol ar gyfer swyddogion i sicrhau fod yr holl wasanaethau a effeithiwyd yn gallu dylanwadu ar ymateb y Cyngor i’r ymgynghoriad.

**9. Datganiad Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Ni fyddai unrhyw gost mewn cyflwyno ymateb i’r ymgynghoriad ar ran y Cyngor. Yn yr hirdymor, o bosib bydd goblygiadau ariannol i’r Cyngor pe bai’r newidiadau arfaethedig yn cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru i’r System Gynllunio. Fel y nodwyd yn yr adroddiad yn gynharach, mae'r ddogfen ymgynghori Cynllunio Cadarnhaol yn amlinellu'r prif oblygiadau ariannol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

10.1. Trwy beidio ag ymateb mae yna risg y byddai’r Cyngor yn colli’r cyfle i ddylanwadu ar y newidiadau wedi eu cynnig gan Lywodraeth Cymru.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

*Amherthnasol*